Adroddiad i'r	Cyngor
Dyddiad y Cyfarfod	19 / 07 / 2022
Aelod/Swyddog Arweiniol	Gary Williams, Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad	Gary Williams, Swyddog Monitro
Teitl	Penodi Cynrychiolydd Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned i'r Pwyllgor Safonau

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Penodi cynrychiolydd Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned i'r Pwyllgor Safonau.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Penodi cynrychiolydd Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned i'r Pwyllgor Safonau.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn penodi'r Cynghorydd Gordon Hughes o Gyngor Tref Corwen i fod yn gynrychiolydd Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned ar y Pwyllgor Safonau am ail dymor a'r tymor olaf.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ar 24 Mai 2022 cytunodd y Cyngor y dylai swyddogion ymgynghori â Chynghorau Tref, Dinas a Chymuned ar ailbenodi'r Cynghorydd Gordon Hughes i wasanaethu fel cynrychiolydd Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned ar Bwyllgor Safonau'r Cyngor am ail dymor.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

4.2. Cysylltwyd â Chynghorau Tref, Dinas a Chymuned a gofynnwyd am eu barn ynghylch ailbenodi'r Cynghorydd Hughes. Roedd yr holl ymatebion a dderbyniwyd yn cefnogi ailbenodiad y Cynghorydd Hughes

4.3. Gofynnir felly i'r Cyngor gadarnhau ailbenodiad y Cynghorydd Hughes.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Testun yma Bydd Pwyllgor Safonau sy'n gweithredu'n llawn ac sy'n gyfreithiol gyfansawdd yn rhoi'r oruchwyliaeth a'r orfodaeth ofynnol i'r Cyngor o'r fframwaith moesegol o fewn ei faes. Mae cynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan aelodau yn sail i swyddogaethau democrataidd y Cyngor ac mae Cyngor a lywodraethir yn dda yn cefnogi cyflawniad blaenoriaethau corfforaethol.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gosod y gyfradd ddyddiol ar gyfer aelodau annibynnol. Mae'n ofyniad cyfreithiol bod y gyfradd hon yn cael ei chynnig I aelodau annibynnol. Mae'r gyfradd ddyddiol hon ar gyfer 2022-23 fel a ganlyn

Os yw aelod yn gweithio am lai na 4 awr y dydd, y gyfradd yw £105 i £134, yn dibynnu ar ei rôl.

Os yw aelod yn gweithio am fwy na 4 awr y dydd, y gyfradd yw £210 i £268, yn dibynnu ar ei rôl.

Telir y gost o'r dyraniadau presennol ar gyfer y Pwyllgor hwn gan nad oes unrhyw newidiadau sylweddol i'r gofynion aelodaeth.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ymgynghorwyd â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Fel y nodir yn adran 6, telir y gost o'r dyraniadau cyllideb presennol gan nad oes unrhyw newidiadau sylweddol i'r gofynion aelodaeth. O ganlyniad, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001